# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 3 Ebrill 2017 am 7.30yh**
**yn Hen Ysgol y Ferwig**

**Presennol:**

Cyng. Ann Stokoe *(Cadeirydd)*
Cyng. Dilwyn Jenkins
Cyng. Eurig Lloyd
Cyng. Morris Davies
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)
Cyng. Llinos Price *(Is-Gadeirydd)*
Cyng. Auriol Williams
Cyng. Lyn Jones
Cyng. Des Davies
Cyng. Haydn Lewis *(aelod lleol y Cyngor Sir)*

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Ann Stokoe, bawb i gyfarfod mis Ebrill.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Islwyn Iago, Huw Jones,

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
   Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod cofnodion mis Mawrth yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Dilwyn Jenkins (gweler eitem 6, Rhoddion), Y Cyng. Des Davies (gweler eitem 6, Rhoddion), Y Cyng. Auriol Williams (gweler eitem 6, Rhoddion), Y Cyng. Lyn Jones (gweler eitem 7 Cynllunio).

5. **Materion yn codi:**
   (a) **Gweithredoedd Ystafell Berkley, Penyparc:** Disgwylir ymateb oddi wrth y gyfreithwraig.
   (b) **Parcio ceir yn ardal Patch:** Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir am gyfarfod safle.
   (c) **Eitem 9[200]: Comisiwn Ffiniau i Gymru:** Mae'r Cyngor Sir wedi argymhell y canlynol – Cyflwyno rhan Orllewinol o'r Ferwig (etholaeth o 380) gyda wardiau Aberteifi gan leihau etholaeth Penparc i 1,472. Mae tref Aberteifi wedi ei rhannu yn dair ward (Mwldan, Teifi a Rhyd-y-fuwch); bydd yr argymhelliad yn creu cyfanswm yr etholaeth yno o 3,477 wedi eu rhannu rhwng y tri chynghorydd gyda chyfartaledd o 1,159 o etholwyr ym mhob ward etholiadol. Trafodwyd yr uchod a chytunwyd gwrthwynebu'r argymhelliad i uno rhan o ward Penparc gyda wardiau Aberteifi. Mae angen dychwelyd sylwadau'r Cyngor erbyn 19 Ebrill.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
   I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig. | I'w ohirio tan dderbyn cadarnhad bod yr Hen Ysgol wedi ei phrynu oddi wrth y Cyngor Sir. |
| *Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn* | Dim |
| Tenovus – Gofal Canser | Dim |
| Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig | Dim |
| Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion | £100 |
| Gofal Mewn Galar (Cruse), Ceredigion | £50 |
| *Gŵyl Fawr Aberteifi* | £150 |
| Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru | Dim |
| Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion | £100 |

(*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)*

Cynigiwyd gan y Cyng. Morris Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Auriol Williams bod y Cyngor yn cyfrannu'r rhoddion uchod.

7. **Cynllunio:**

| *Rhif y Cais* | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau'r Cyngor* |
|---|---|---|
| A170238 | Felin Bedr, Ferwig: Dymchwel rhan ac atgyweirio hen felin. Part demolition and repair of former mill. | Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad. |
| A170198 | Tynewydd Farm, Blaenannerch: Erection of general purpose agricultural building | Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad. |

## 8. Materion Ariannol

**Biliau wedi eu talu:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Mawrth 2017) | 101599 | £302.72 |
| Costau'r Clerc (Mawrth 2017) | 101600 | £48.60 |
| Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mawrth 2017) | 101601 | £75.60 |
| SSE Swalec: Trydan yr Ystafelloedd Newid | 101602 | £48.59 |
| Hen Ysgol y Ferwig (Rhent yr Hen Ysgol am 2016) | 101603 | £120.00 |
| Ystafell Berkley Penyparc (Rhent Ystafell Berkley am 2016) | 101604 | £100.00 |

Cynigiwyd gan y Cyng. Morris Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Ceisiadau am gymorth ariannol** (gweler eitem 6 uchod)

| | | |
|---|---|---|
| Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion | 101605 | £100.00 |
| Gofal mewn Galar | 101606 | £50.00 |
| Gŵyl Fawr Aberteifi | 101607 | £150.00 |
| Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion | 101608 | £100.00 |

**Materion ariannol eraill:** Cyflwynwyd adroddiad ariannol chwarterol hyd ddiwedd Mawrth 2017 i'r Cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y Cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad ariannol.

## 9. Gohebiaeth / Correspondence:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Mark Williams AS | Poster ynglŷn â chymorthfaoedd am fisoedd Mawrth ac Ebrill. | Y Clerc wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd. |
| 2 | Mr Ken Griffiths | Llythyr yn cadarnhau ei fod yn barod i wasanaethu fel archwilydd mewnol y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2016-17. | Y Clerc i drefnu dyddiad yr archwiliad mewnol gyda Mr Grffiths. |
| 3 | Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr) | Posteri a phecynnau enwebu, "Canllawiau i'r Ymgeiswyr", ffurflenni "Cais am Gofrestr Etholiadol" ac amserlen ar gyfer yr Etholiadau (Cyngor Sir a Chyngor Cymuned y Ferwig), 4 Mai 2017. | Mae'r posteri wedi eu harddangos ac mae'r Clerc wedi dosbarthu'r ffurflenni. Cytunodd y Clerc ddychwelyd y ffurflenni i'r swyddog etholiadol ar ddydd Mawrth, 4 Ebrill. |
| 4 | Y Cyng. T. Haydn Lewis | Copi o sylwadau'r Cynghorydd Sir ynglŷn â materion parcio yn ardal Patch. | Mae'r Cyngor hefyd i anfon llythyr gyda'i sylwadau. |
| 5 | Cyngor Cymuned Llangoedmor | E-bost yn gofyn am ganiatâd i Gadeirydd y Cyngor, y Cyng. Gareth Evans, wisgo ei gadwyn i ginio yn y Clwb Golff. | Ar ran y Cyngor, rhoddwyd caniatâd i'r Cadeirydd wisgo ei gadwyn gan y Clerc. |
| 6 | Llywodraeth Cymru | Ymateb yn cadarnhau nad oes cynlluniau gan y Llywodraeth i greu llwybr o Heol Caemorgan i Benparc. | Gofynnwyd i'r Clerc grynhoi'r dogfenni hanesyddol er mwyn eu trafod eto. |
| 7 | Cyngor Sir Ceredigion (Gwasanaethau Ffordd o Fyw) | Ymateb negyddol gan y Cyngor Sir i gwyn y Cyngor am faw cŵn ar balmentydd y gymuned. Mae'r cyfrifoldeb, yn eu tyb, yn aros gyda pherchenogion cŵn. | Nodwyd |
| 8 | Cymru i Bawb | Poster ynglŷn â datganiad "Cymru i Bawb" yn dweud ein bod yn gwrthod derbyn unrhyw fath o hiliaeth neu drin pobl yn wael | Y Clerc i arddangos y poster yn yr hysbysfwrdd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr) | Cofrestr o Etholwyr 2016-17 | Mae copi tan ofal y Clerc. Gweler Adrannau 103-108, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2002 ynghylch defnyddio'r Gofrestr. |
| 10 | Cyngor Sir Ceredigion (Elin Prysor, Swyddog Monitro) | Cod Ymddygiad yr Aelodau – Cyfarfod Briffio gyda Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau – gwahoddiad i'r Clerc fynychu'r cyfarfod yn Y Siambr, Penmorfa dydd Llun, 15 Mai, 2017 rhwng 18.30 – 20.00 | Cytunodd y Clerc fynychu'r cyfarfod. |
| 11 | Llywodraeth Cymru | Copi o lawlyfr "Canllaw'r Cynghorydd Da ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref." | Copi ar gael gan y Clerc. |
| 12 | Cyngor Cymuned Llangoedmor | E-bost oddi wrth Glerc Cyngor Cymuned Llangoedmor yn hysbysu bod diffibrilwyr Llandudoch a Llangoedmor wedi eu niweidio gan fandalwyr. | Nodwyd |
| 13 | Y Cyng. Huw Jones | Llythyr o ymddiswyddiad fel cynghorydd Cyngor Cymuned y Ferwig | Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Mr Jones yn diolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor drwy'r blynyddoedd. Yn yr un modd cytunwyd anfon llythyr o werthfawrogiad i'r Cyng. Islwyn Iago gan ddiolch iddo am ei wasanaeth diflino dros y blynyddoedd. |

**10. Materion Eraill:**

(a) **Sbwriel adeiladu:** Derbyniwyd cwynion gan aelodau'r cyhoedd yn Gwbert am y llanastr a welir ar y llwybr o Westy'r Cliff i draeth Pistyll Ifor. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr Wells Jones, perchennog Gwesty'r Cliff, er mwyn trafod y mater.

(b) **Gwasgaru biswail:** Cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd yn Felinwynt am y gwynt annymunol a brofir pan fydd amaethwyr yn gwasgaru biswail ar y tir. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o gadarnhad o dderbyn y neges ffôn ynglŷn â'r cwyn.

(c) **Teiars ym Mhengarn:** Mae teiars wedi eu gadael fel sbwriel ger Pengarn. Mae'r Clerc wedi anfon ffurflen o gwyn i'r Cyngor Sir.

(d) **Gordyfiant coeden ger Patch:** Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi torri'r goeden er bod y Cyngor wedi cael addewid o hyn lawer gwaith oddi ar Awst 2016. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â hwy unwaith eto.

(e) **Y Cyng. Haydn Lewis (Aelod Lleol y Cyngor Sir):** Dywedodd y Cyng. Lewis ei fod yn ymddeol fel aelod o'r Cyngor Sir ar ôl cyfnod hir o flynyddoedd a diolchodd ef i'r aelodau am eu cefnogaeth. Diolchwyd hefyd i'r Cynghorydd Lewis gan y Cyng. Dilwyn Jenkins am ei wasanaeth clodwiw i'r gymuned dros y cyfnod, a dymunodd ymddeoliad dedwydd iddo ef a Mrs Lewis am flynyddoedd eto.

(f) **Arwyddion 30mya a 40mya ar sgwâr Penyparc:** Mae dau arwydd wedi ei niweidio gan lorri; gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 8 Mai 2017 (Cyfarfod Blynyddol) yn Ystafell Berkley Penyparc am 7.30 o'r gloch.

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2017**

5 Mehefin (F) 3 Gorffennaf (YB)

4 Medi (F) 2 Hydref (YB) 6 Tachwedd (F) 5 Rhagfyr (F)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Minutes of the Ordinary Meeting held on 3 April 2017 at 7.30pm**
**at Hen Ysgol y Ferwig**

**Present**

Cllr Ann Stokoe *(Chairman)*
Cllr Dilwyn Jenkins
Cllr Eurig Lloyd
Cllr Morris Davies
Mrs Hildreth Owen *(Clerk)*
Cllr Llinos Price *(Vice Chairperson)*
Cllr Lyn Jones
Cllr Des Davies
Cllr Haydn Lewis *(local member of the County Council)*

1. **Chairperson's welcome.** The Chairman, Cllr Ann Stokoe, welcomed everyone to the April meeting.

2. **Apologies for absence:** Councillors Islwyn Iago, Huw Jones.

3. **Minutes of the previous meeting.**
   It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Llinos Price that the minutes of the March meeting be recorded as correct.

4. **Declaration of personal interests:** Cllr Dilwyn Jenkins (see item 6, Grants), Cllr Des Davies (see item 6, Grants), Cllr Auriol Williams (see item 6, Grants), Cllr Lyn Jones (see item 7, Planning).

5. **Matters arising:**
   (a) **Deeds of Ystafell Berkley, Penyparc:** A response is awaited from the solicitor.
   (b) **Parking of vehicles at Patch:** A request is to be made for a site meeting with officers from the County Council.
   (c) **Item 9[200]: Boundary Commission for Wales:** The County Council recommends the following: That the western section of Ferwig (380 electors) be merged with the Cardigan wards thereby reducing the Penparc electorate to 1,472. Cardigan presently is divided into three wards (Mwldan, Teifi and Rhyd-y-fuwch); the recommendation will create an electorate of 3,477 to be sub-divided between the three councillors with an average of 1,159 electors in each ward. The recommendations were discussed by the Community Council and it was agreed to object to the merging of the western part of Ferwig with the Cardigan wards.
   The observations to be forwarded to the Commission by 19 April.

6. **Requests for financial support.**
   To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig. | Payment is delayed until confirmation is received that the Old School has been bought from the County Council. |
| *Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn* | Nil |
| Tenovus – Cancer Care | Nil |
| Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig | Nil |
| Ceredigion Young Farmers' Clubs | £100 |
| Cruse Bereavement Care, Ceredigion | £50 |
| *Gŵyl Fawr Aberteifi* | £150 |
| Bobath Cymru Children's Therapy Centre | Nil |
| Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion | £100 |

*(Names in italics = accounts forwarded with applications)*

It was proposed by Cllr Morris Davies and seconded by Cllr Auriol Williams that the above grants be paid.

7. **Planning:**

| *Application No.* | *Address and Purpose* | *Community Council's Observations* |
|---|---|---|
| A170198 | Tynewydd Farm, Blaenannerch, Cardigan. "Erection of general purpose agricultural building" | Council has no objections. |
| A170238 | Felin Bedr, Ferwig "Part demolition and repair of former mill" | Council has no objections. |

**8. Financial Matters.**

**Bills paid:**

| | | |
|---|---|---|
| Clerks wages (March 2017) | 101599 | £302.72 |
| Clerk's Expenses (March 2017) | 101600 | £48.60 |
| HM Customs & Expenses (Clerk's Income Tax March 2017) | 101601 | £75.60 |
| SSE Swalec Electricity Changing Rooms of Ystafell Berkley | 101602 | £48.59 |
| Hen Ysgol y Ferwig (Rent for 2016) | 101603 | £120.00 |
| Ystafell Berkley Penyparc (Rent for 2016) | 101604 | £100.00 |

It was proposed by Cllr Morris Davies and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the above bills be paid.

**Request for Financial Aid:** (see item 6 above)

| | | |
|---|---|---|
| Ceredigion YFC | 101605 | £100.00 |
| Cruse Bereavement Care | 101606 | £50.00 |
| Gŵyl Fawr Aberteifi | 101607 | £150.00 |
| Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion | 101608 | £100.00 |

**Other Financial Matters:** The quarterly financial report up to the end of March 2017 was presented to the Council. It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Llinos Price that the Council approves the report.

**9. Correspondence:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Mark Williams MP | Poster showing latest surgery dates for March and April. | The Clerk has displayed in noticeboard, |
| 2 | Mr Ken Griffiths | Letter confirming that Mr Griffiths is pleased to act as internal auditor for the year 2016-17. | The Clerk to organise a suitable date for the internal audit inspection. |
| 3 | Ceredigion County Council (Chief Executive) | Posters and nomination packs "Guidance for Candidates" "Request for Electoral Register Form" and a timetable for the Election (County Council and Ferwig Community Council, 4 May 2017. | Posters have been displayed and the Clerk has distributed the relevant forms and agreed to deliver the completed forms to the returning officer on 4 April. |
| 4 | Cllr T. Haydn Lewis | Copy of Councillor's observations regarding the matter of parking in the Patch area. | The Council will also forward a letter to the County Council requesting a site meeting. |
| 5 | Llangoedmor Community Council | E-mail asking for permission for Cllr Gareth Evans to wear his chain of office to an event at Cardigan Golf Club. | Permission was given on behalf of the Council for the Chairman to wear his chain of office. |
| 6 | Welsh Government | Response confirming that the Welsh Government has no plans to create a path from Caemorgan Road to Penyparc. | The Clerk has been asked to note historic documents for further discussion. |
| 7 | Ceredigion County Council (Head of Lifestyle Services) | Negative response from the County Council regarding the Council's complaint at the dog fouling on the streets of Penyparc. In the higher authority's opinion, the responsibility lies with dog owners. | Noted |
| 8 | Cymru i Bawb | Poster regarding an announcement "Cymru i Bawb" stating that they refuse to accept any kind of discrimination against individuals. | Poster has been displayed in the noticeboard. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Ceredigion County Council (Chief Executive) | Register of Electors 2016-17 | The Clerk has a copy<br>See Sections 103-108, of the Representation of the People Regulations 2002 regarding the use of the register. |
| 10 | Ceredigion County Council (Elin Prysor, Monitoring Officer) | Code of Conduct for Members – Training – Ombudsman Guidance – invitation to the Clerk to attend the meeting at The Chamber, Penmorfa, Aberaeron on Monday, 15th May 2017, 18.30-20.00pm | The Clerk to attend the meeting. |
| 11 | Welsh Government | Copy of booklet "The good Councillor's guide for Community and Town Councillors" | Copy available with the Clerk. |
| 12 | Llangoedmor Community Council | E-mail from the Clerk of Llangoedmor Community Council stating that two deffibrilators, one at St Dogmaels and the other at Llangoedmor, have been damaged by vandals. | Noted |
| 13 | Cllr Huw Jones | Letter of resignation as councillor on Ferwig Community Council. | The Clerk to write to Mr Jones thanking him for his service to the Council. Likewise, it was agreed to forward a letter to Mr Islwyn Iago for his unstinting service to the Council over many years. |

**10. Other Matters:**

(a) **Builders rubble:** Complaints have been received from members of the public regarding the rubble which obstructs pedestrians from using Evelyn's Beach which is adjacent to the Cliff Hotel. The Clerk was asked to contact Mr Wells Jones, the proprietor of the Cliff Hotel to discuss the matter.

(b) **Spreading of slurry:** A complaint has been received from a member of the public regarding the foul odours of slurry spreading by local agricultural contactors. The Clerk was asked to forward a sympathetic letter to the complainant.

(c) **Tyres left at Pengarn:** It has come to the attention of the Council that used tyres have been left at Pengarn. The Clerk has contacted the County Council regarding this.

(d) **Tree obstruction at Patch:** Complaints regarding the obstruction caused by the tree have been forwarded to Natural Resources Wales on a continuous timetable since August 2016. The Clerk was asked to complain to the authority at its lack of courtesy and total inefficiency dealing with this minor matter.

(e) **Cllr T. Haydn Lewis (Local County Council member):** Cllr Lewis announced his retirement from the County Council on 4 May following a period of over forty years' service for the various higher authorities; Cllr Lewis thanked the Community Council for the support shown him over the period. Cllr Dilwyn Jenkins thanked Cllr Lewis for serving the community with such dignity and efficiency and wished him and Mrs Lewis a long and happy retirement from public life.

(f) **30mph and 40mph signs at the Penyparc square:** Two signs have been damaged by a passing lorry; the Clerk was asked to report the incident to the County Council.

**11. Date of next meeting:** 8 May 2017 (Annual General Meeting) at Ystafell Berkley, Penyparc

**Dates of Council Meetings for 2017:**

5 June (F) 3 July (YB) 4 September (F)
2 October (YB) 6 November (F) 4 December (YB)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting